SFJCCAD1W

Datblygu, cynnal a gwerthuso cynlluniau a threfniadau ar gyfer parhad busnes

Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â datblygu, cynnal a gwerthuso cynlluniau parhad busnes er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n parhau i ymarfer swyddogaethau craidd os bydd argyfwng yn codi neu rywbeth yn amharu ar fusnes.

Mae hon yn berthnasol i unrhyw sefydliad yn y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol a all ddioddef yn sgil argyfwng neu rywbeth yn amharu ar fusnes, gan gynnwys y rheini sy'n ymateb i argyfwng ac mae angen iddynt ddefnyddio eu gallu eu hunain os bydd argyfwng yn codi.

Grŵp Targed

*

*

Mae'r uned hon yn cael ei hargymell ar gyfer y rheini sy'n gysylltiedig â datblygu, cynnal a gwerthuso cynlluniau a threfniadau parhad busnes. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr mewn sefydliadau a'r rheini sydd â chyfrifoldeb penodol dros gydlynu trefniadau parhad busnes.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. ymgynghori â'r sefydliad a phartneriaid perthnasol eraill ynghylch datblygu'r cynlluniau a'r trefniadau

2. cadarnhau nod, cwmpas ac amcanion gofynnol y cynlluniau a'r trefniadau
3. nodi'r prif gynnyrch neu wasanaethau a'r gweithgareddau a'r adnoddau hanfodol sy'n eu cefnogi
4. ystyried gallu strwythurau a phrosesau mewnol ynghyd â sefydliadau allanol perthnasol i wrthsefyll pwysau
5. nodi ac asesu strategaethau eraill i liniaru effeithiau achosion o argyfwng neu rywbeth yn amharu ar fusnes
6. datblygu cynlluniau a threfniadau yn unol â chylch bywyd rheoli parhad busnes
7. darparu fframwaith ar gyfer llywio, cydlynu a rheoli gan gynnwys:
a) gweithdrefnau er mwyn pennu pryd ddylai'r cynllun gael ei ddefnyddio
b) rolau a chyfrifoldebau pobl allweddol yn y sefydliad
c) blaenoriaethu prosesau neu wasanaethau'r sefydliad
d) gweithdrefnau er mwyn rhoi trefniadau ymateb ar waith
e) darparu adnoddau (e.e. pobl, adeiladau, technoleg, cyfarpar)
f) darparu systemau gwybodaeth a chyfathrebu cadarn
8. cydbwyso adnoddau sydd wedi'u clustnodi ar gyfer rheoli parhad busnes gydag asesiad o effaith bosibl achosion o argyfwng
9. cyflwyno cynlluniau a threfniadau yn glir, yn gryno ac mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth
10. annog perchnogi cynlluniau a threfniadau ar y lefel adrannol briodol
11. codi ymwybyddiaeth o gynlluniau a threfniadau (e.e. ymhlith uwch reolwyr a swyddogion gwneud penderfyniadau, staff perthnasol eraill, rhanddeiliaid a'r gymuned yn gyffredinol)
12. sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff perthnasol neu bobl eraill
13. sicrhau bod ymarferion yn cael eu darparu er mwyn dilysu ac ymarfer cynlluniau a threfniadau
14. trefnu i ddosbarthu'r holl gynlluniau parhad busnes neu rai ohonynt, lle y bo'n briodol
15. sicrhau bod cynlluniau'n cael eu hadolygu'n systematig a'u diweddaru, yn unol ag effaith bosibl achosion o argyfwng neu rywbeth yn amharu, newidiadau yn y sefydliad a'r gwersi a ddysgwyd yn sgil digwyddiadau ac ymarferion

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. deddfwriaeth, canllawiau a safonau cyfredol sy'n berthnasol i reoli parhad busnes
2. deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau perthnasol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth
3. sut mae cadarnhau nod, cwmpas ac amcanion y cynlluniau a'r trefniadau parhad busnes
4. pwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid perthnasol yn y broses gynllunio a chydnabod eu gofynion a'u disgwyliadau
5. cylch bywyd rheoli parhad busnes
6. effaith bosibl achosion o argyfwng ar y sefydliad
7. sut mae dadansoddi effaith busnes
8. rolau a strwythur fforymau lleol a rhanbarthol ar gyfer Rheolaeth Integredig mewn Argyfwng (IEM)
9. sut mae pennu'r elfennau o gynllunio parhad busnes y gellir rhoi sylw iddynt drwy hyfforddiant neu ymarfer
10. sut mae cynllunio ar gyfer darparu adnoddau perthnasol os bydd argyfwng yn codi neu os bydd rhywbeth yn amharu ar fusnes
11. yr anghenion gwybodaeth ar ôl argyfwng neu ar ôl i rywbeth amharu ar fusnes
12. sut mae nodi swyddogaethau'r sefydliad sy'n hanfodol a heb fod yn hanfodol
13. strwythur, prosesau busnes a llywodraethu'r sefydliad
14. blaenoriaethau'r sefydliad o ran darparu gwasanaethau neu brosesau
15. dulliau o godi ymwybyddiaeth o gynlluniau a threfniadau parhad busnes
16. pwysigrwydd perchnogi cynlluniau a threfniadau ar y lefel adrannol briodol

17. pwysigrwydd datblygu diwylliant rheoli parhad busnes mewn sefydliad

18. sut a pham mae'n rhaid adolygu cynlluniau parhad busnes yn systematig

Ymddygiadau

Isod rhestrir y prif sgiliau ac agweddau cyffredinol y mae angen eu cymhwyso. Mae'r rhain yn benodol/ymhlyg yng nghynnwys manwl yr uned ac maent yn cael eu rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

1. sylw ar y gymuned
2. penderfynol
3. meddwl agored
4. realistig

Sgiliau

- dadansoddi
- cyfathrebu
- ymgynghori
- dadansoddi effaith
- dylanwadu
- rhyngbersonol
- cyfweld
- negodi
- rhwydweithio
- trefnu
- arwain
- blaenoriaethu
- datrys problemau
- rheoli prosiectau
- ysgrifennu adroddiadau/cynlluniau
- cynllunio strategaeth

Geirfa

Termau a ddefnyddir yn aml a sut dylid eu dehongli yng nghyd-destun NOS Paratoadau Sifil

Cynllun parhad busnes
Cyfres o weithdrefnau a gwybodaeth wedi'u dogfennu gyda'r bwriad o sicrhau bod swyddogaethau hanfodol yn parhau os bydd rhywbeth yn tarfu ar y drefn

Dadansoddi effaith busnes
Dull o asesu'r effeithiau a allai godi yn sgil digwyddiad a lefelau'r adnoddau a'r amser sydd eu hangen er mwyn adfer y sefyllfa

Sefydliad
Cyrff cyhoeddus, preifat neu wirfoddol

Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r uned hon yn gysylltiedig â

1. CC AB1 Rhag-weld ac asesu'r risg o achosion o argyfwng
2. CC AD2 Hyrwyddo gwaith rheoli parhad busnes
3. CC AE1 Creu ymarferion i ymarfer neu ddilysu trefniadau mewn argyfwng neu barhad busnes
4. CC AE2 Cyfarwyddo a hwyluso ymarferion i ymarfer neu ddilysu trefniadau mewn argyfwng neu barhad busnes
5. CC AF1 Codi ymwybyddiaeth o'r risg, yr effaith bosibl a'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer achosion o argyfwng.

SFJCCAD1W

Datblygu, cynnal a gwerthuso cynlluniau a threfniadau ar gyfer parhad busnes

Datblygwyd gan	Skills for Security
Dyddiad cymeradwyo	01 Tach 2008
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Tach 2013
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Justice
RCU gwreiddiol	SFJCCAD1
Galwedigaethau perthnasol	Galwedigaethau Elfennol, Galwedigaethau Diogelwch Elfennol
Cyfres/Set	Gweithrediadau Diogelwch Digwyddiad
Geiriau Allweddol	rhag-weld, hyrwyddo, creu, hwyluso